# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)02-08 (p8): 31 Ionawr 2008

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-064: "Pw"ll Nofio a Chanolfan Hamdden Gogledd Tor-faen

### Geiriad y ddeiseb

'Mae'r rheini ohonom sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ailystyried defnyddio cyllid menter Blaenau'r Cymoedd i leoli cyfleusterau ym Mlaenafon oherwydd y gallai arwain at gau'r unig Bwll nofio a Chanolfan Hamdden yng Ngogledd Tor-faen'.

### Diben

Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan Weinidogion ers yr ystyriaeth ddiwethaf

### Cefndir

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 20/9/07 ac eto ar 22/11/07 pan roddodd y deisebwyr gyflwyniad i'r Pwyllgor.

Yn y cyfarfod ar 22/11/07, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n ysgrifennu at Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog - Adfywio a Rhodri Glyn Thomas, y Gweinidog dros Dreftadaeth, yn gofyn:

Am eglurhad ynghylch y materion dan sylw er mwyn cynyddu dealltwriaeth y Pwyllgor; ac

A allai rhaglenni'r Cyngor Chwaraeon neu Flaenau'r Cymoedd fod yn ffynonellau ariannu posibl ar gyfer cynigion eraill a gyflwynwyd gan BLAST (Blaenavon Leisure and Swimming Trouble-shooters)

Atebodd y Dirprwy Weinidog - Adfywio ar 19/12/07 a nododd:

Ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r Gweinidog dros Dreftadaeth ynghylch y mater hwn

Mai mater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen yw'r penderfyniadau ynghylch dyfodol y cyfleuster gan mai hwy sydd yn ei berchen a'i reoli

Strategaeth adfywio 15 mlynedd yw Rhaglen Blaenau'r Cymoedd, i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anweithgarwch economaidd yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru a byddai'n ymateb i gynigion a ystyriwyd gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ar sail y cynlluniau busnes a gyflwynwyd (er na ragwelwyd mai rôl y rhaglen hon fyddai cynnal pyllau nofio)

Caiff y fenter Nofio am Ddim ei chefnogi ar draws ffiniau rhwng awdurdodau lleol, yn arbennig gan y byddai Cynghorau Sir Blaenau Gwent a Mynwy yn caniatáu mynediad am ddim i'r rhai sy'n gymwys waeth lle maent yn byw

Mae cyfleusterau eraill ar gael yng Nghanolfan Ddysgu Gweithredol Pont-y-pwl, Stadiwm Cwmbrân, Canolfan Byw'n Weithredol Bowden a Chanolfan Hamdden  Fairwater

Roedd y Gweinidog dros Dreftadaeth yn ymchwilio gyda'r Cyngor Chwaraeon i weld a oedd unrhyw gymorth ar gael.

Mae copi o lythyr y Gweinidog wedi'i atodi er gwybodaeth ym Mhapur PET(3)02-08 (p2a)

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ionawr 2008**